Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

26 Awst 2021

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD INTERIM AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI: 'ARCHWILIAD O BA MOR EFFEITHIOL Y MAE'R HEDDLU'N YMGYSYLLTU Â MENYWOD A MERCHED'

Mae'r adroddiad interim hwn yn gwneud argymhellion cadarnhaol mewn perthynas ag un o'r agweddau ar yr archwiliad ehangach hwn o'r ffordd y mae'r heddlu'n ymgysylltu â menywod a merched. Mae pob un o'r tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched ac rwy'n eu croesawu.

Mae'r adroddiad wedi cydnabod, yn gywir ddigon, hyd a lled Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn y DU a'r ffaith bod angen i bob asiantaeth gydweithredu i fynd i'r afael ag ef, bod angen gwneud mwy, ac na ellir oedi hyn. Rwy'n falch bod Argymhelliad 1 yn yr adroddiad hwn yn galw ar Lywodraeth y DU, yn ogystal ag asiantaethau eraill, i flaenoriaethu'r mater hwn a neilltuo digon o adnoddau i hyrwyddo dull system gyfan o ddiogelu dioddefwyr.

Mae hefyd yn galonogol gweld bod Argymhellion 2 a 3 yn cyfeirio at yr angen i fynd i'r afael â chyflawnwyr troseddau ac i neilltuo strwythurau a chyllid yn briodol i gefnogi Trais yn Erbyn Menywod a Merched. Rwy'n cefnogi'r argymhellion i heddluoedd, ac rwy'n arbennig o falch o weld nifer yr argymhellion sy'n cael eu cyfeirio i'r Swyddfa Gartref er mwyn cynorthwyo Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched yn ganolog ac yn ehangach mewn cymdeithas. Mae'r dulliau sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad hwn yn cefnogi ein dull gweithredu yng Nghymru drwy weithio gyda phartneriaid ehangach a'r sector cyhoeddus i wella cymorth i ddioddefwyr.

Mae hefyd yn galonogol gweld y pwysigrwydd a roddir i fynd i'r afael â chyflawnwyr troseddau fel elfen hanfodol o agenda ehangach Trais yn Erbyn Menywod a Merched. Mae De Cymru wrthi'n cynnal rhaglen DRIVE lwyddiannus iawn ar gyfer cyflawnwyr troseddau, a gomisiynwyd yn fy nhîm, ac rydym yn gweld canlyniadau gwych. Mae rhaglen DRIVE yn ddull gweithredu arloesol sy'n herio ymddygiad cyflawnwyr trais domestig a cham-drin domestig risg uchel a niwed uchel. Gwelwyd ei bod yn lleihau achosion o drais, fictimeiddio ac aildroseddu. Wrth gwrs, byddaf yn parhau i ymroi i fynd i'r afael â chyflawnwyr troseddau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu parhaus ar gyfer y tymor hwn, a byddaf yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i sicrhau

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

bod y buddsoddiad a'r ymrwymiad i wasanaethau cyflawnwyr troseddau yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Mae'r Prif Gwnstabl yn rhannu fy ymrwymiad i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched ac mae wedi gwneud y sylwadau canlynol ar yr adroddiad interim:

'Mae'r heddlu'n gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'r craffu a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i feincnodi ein cynlluniau a deall ble a sut y gallwn wneud gwelliannau.

Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad a bydd yn parhau i weithio'n ddiflino gyda phartneriaid i sicrhau bod ein hymateb i drais yn erbyn menywod a merched yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth cyson, wedi'i deilwra, a'u bod yn teimlo'n ddiogel.'

Edrychaf ymlaen at gael yr adroddiad terfynol yn yr hydref, a fydd yn ymdrin â materion eraill a, gobeithio, yn rhoi rhagor o fanylion am y materion a godwyd yn yr adroddiad interim.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English